**CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **20fed Chwefror 2024** |
| **Aelod Cabinet perthnasol:** | **Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Arbedion 2024/25** |

## 1. Y Penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

a) Gymeradwyo'r arbedion a thoriadau a restrir yn Atodiad A (£4.4M) i'w defnyddio fel cyfraniad tuag at ein bwlch cyllidol yn 2024/25, a chomisiynu'r Adrannau i symud ymlaen i weithredu y cynlluniau gan ddal sylw at y materion a amlygwyd yn yr adroddiad.

b) I bwrpas gosod cyllideb gytbwys yn 2024/25, cymeradwyo gwerth y toriadau ac arbedion a restrir yn Atodiad B (£0.8M) a nodi y bydd angen camau pellach cyn gallu dod i benderfyniad terfynol i'w gweithredu, fel amlinellir yn 2.13, gan ddefnyddio arian wrth gefn i bontio yr arbedion na fydd yn cael eu cyflawni yn 24/25.

c) Gwneud darpariaeth o £0.52M i gyfarch y lefel risg sydd yn ynghlwm â gwireddu y cynllun toriadau hwn.

ch) Dirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Cyllid, i wneud addasiadau i'r Cynllun Arbedion hwn o fewn y cyfansymiau Adrannol wrth i aeddfedrwydd y cynlluniau a restrir yn Atodiad A a B ddatblygu, o fewn y cyfansymiau cyllidol a nodir yn a), b), a c) uchod.

## 2. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

2.1 Rydym bellach yn gwybod beth fydd lefel ein Grant Cynnal Refeniw(GCR) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 (cynnydd o 2%), ac y bydd yn sylweddol is na lefel chwyddiant a chryn bellter islaw'r hyn fyddwn ei angen i gynnal ein lefel gwasanaethau presennol. Mae'r ffaith fod poblogaeth Gwynedd wedi gostwng erbyn y cyfrifiad yn 2021 yn golygu fod y lefel cynnydd GCR fyddwn yn ei dderbyn yma yng Ngwynedd yn cynrychioli'r cynnydd isaf drwy Gymru.

2.2 Rydym hefyd yn wynebu sefyllfa lle bo adrannau yn gorwario, yn bennaf oherwydd cynnydd parhaus yn y galw am eu gwasanaethau a'i bod yn amhosib erbyn hyn i rhai gwasanaethau megis digartrefedd, gofal plant, gofal oedolion a chludiant ysgolion allu

gweithredu o fewn eu cyllideb presennol. Mae yn arwain at orwariant eleni oddeutu £8M. Gan nad oedd cyfle i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y bwlch hwn, byddwn yn gorfod defnyddio arian wrth gefn ar gyfer ymdopi â'r sefyllfa.

2.3 Canlyniad y cynnydd mewn galw, yr angen i ddarparu cyllideb uwch ar gyfer yr adrannau sydd bellach methu ymdopi â'u cyllideb presennol, a'r Grant Cynnal Refeniw isel gan y Llywodraeth, yw fod y Cyngor yn wynebu bwlch ariannol eleni o £14.9M.

2.4 Bydd y Pennaeth Cyllid yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn yr un cyfarfod a'r adroddiad hwn, a fydd yn amlinellu sut ydym am ymdopi gydag effaith y bwlch yma wrth osod ein cyllideb ar gyfer 2024/25. Bydd rhaid i'r gyllideb gynnwys cyfuniad o orfod cynyddu'r dreth Cyngor a chyflawni toriadau mewn cyllidebau ar draws y Cyngor. Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu sut yr ydym wedi mynd ati i ganfod y toriadau hyn a sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet i'w gweithredu er mwyn gallu gosod cyllideb 2024/25.

***Trefn adnabod Arbedion a thoriadau***

2.5 Ymhellach i'r drefn o sefydlu cynllun arbedion y llynedd, fe gynhaliwyd gweithdai i holl aelodau etholedig ym mis Hydref 2023 er mwyn blaenoriaethu cynlluniau arbedion ar gyfer 24/25.

2.6 Cyflwynwyd 135 o gynigion gyda chyfanswm eu gwerth oddeutu £8.2M. Fe aseswyd pob un o'r rhain unai gennyf i neu gan un o'r Cyfarwyddwyr gan osod pob cynllun yn y categorïau canlynol er mwyn helpu'r Aelodau i allu mynd ati i flaenoriaethu gydag ymwybyddiaeth o beth fyddai'r lefel risg o weithredu unrhyw gynnig unigol.

| | |
|---|---|
| Arbediad effeithlonrwydd | Dim angen y gyllideb, neu'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn ffordd wahanol gyda dim effaith o sylwedd ar drigolion Gwynedd |
| Arbediad effeithlonrwydd | Gwasanaeth yn parhau, ond bydd y cyhoedd yn gweld gwasanaeth yn cael ei gyflwyno mewn ffordd wahanol i'r hyn mae nhw wedi arfer ei weld (cynyddu ffioedd yn fan hyn hefyd) |
| Toriad | Y gwasanaeth yn dal i gael ei gyflawni ond yn arafach, i safon is neu ar raddfa llai na'r hyn mae'r cyhoedd wedi arfer ei dderbyn. Risg isel o niwed i unigolion mewn rhai meysydd. |
| Toriad | Y gwasanaeth yn dod i ben gydag oblygiadau negyddol clir i drigolion Gwynedd, gan gynnwys risg uchel o niwed i unigolion mewn rhai meysydd. |

2.7 Bu i ni hefyd gynnal asesiad cyfreithiol ag asesiad ariannol lefel uchel ar bob cynllun unigol er mwyn sicrhau eu bod yn gynlluniau oedd yn bosibl eu cyflawni.

2.8 Pan yn cyflwyno'u cynigion, roedd yr Adrannau yn cynnwys asesiad o effaith pob cynnig ar drigolion Gwynedd ynghyd ag ystyriaeth gychwynnol i ystyriaethau cydraddoldeb. Dros gyfnod o dri diwrnod bu i'r Cyfarwyddwyr a minnau gyflwyno'r cynigion i weithdai o Aelodau etholedig y Cyngor.

2.9 Yn ystod y gweithdai, bu i'r Aelodau osod pob un o'r 135 o gynigion mewn un o dri categori er mwyn blaenoriaethu yr holl gynigion o'r rhai mwyaf 'derbyniol' hyd at y cynigion lleiaf 'derbyniol'.

***Casgliadau'r gweithdai***

2.10 Roedd consensws bras ymysg yr aelodau a gymerodd ran yn y gweithdai yn yr Hydref, a'r Aelodau Cabinet, Cadeiryddion Craffu ac Arweinyddion Grŵp a gymerodd ran yn y gweithdai yn gynharach yn y flwyddyn o ran penderfynu pa gynlluniau y dylid eu blaenoriaethu. Y casgliad oedd fod posib i ni weithredu oddeutu £5.2M o'r cynigion dros y ddwy neu dair blynedd nesaf, yn unol â phroffil bras fel a ganlyn:

| 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 |
|---|---|---|
| £1.97M | £2.86M | £0.34M |

2.11 Rhennir y rhestr o arbedion a thoriadau i Rhan A a Rhan B. Mae rhestr A yn cynnwys y cynlluniau y gellir eu symud ymlaen i weithredu yn gan yr Adrannau yn unol â'r hyn a gynllunir. Nodir fod gweithredu yn ddarostyngedig i ddilyn y camau priodol o safbwynt materion cyflogaeth ac unrhyw gyfnodau rhybudd perthnasol. Yn ogystal nid yw cymeradwyo y cynllun yn rhagfarnu yr angen i'w weithredu mewn modd sydd yn cyfarch canlyniadau asesiadau ardrawiad Cydraddoldeb penodol neu asesiadau o anghenion unigolion a chyfnodau rhybudd perthnasol.

2.12 Gellir gweld rhestr gyflawn o'r cynigion sydd wedi eu blaenoriaethu i'w gweithredu heb gamau pellach yn Atodiad A. Yn fras gellir eu gosod yn y grwpiau canlynol o ran y math o gynllun sydd dan sylw:

| | |
|---|---|
| **Arbedion effeithlonrwydd - addasu trefniadau gweithio.**<br>Newid y ffordd yr ydym yn mynd ati i ddarparu'r gwasanaeth a'i ddarparu mewn ffordd mwy effeithlon. | £1,007,503 |
| **Cynyddu incwm**<br>Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r ffioedd am wasanaethau. | £429,760 |
| **Defnyddio ffynonellau eraill i ariannu**<br>Uchafu'r defnydd o gyllid tu allan i'n adnoddau craidd i ariannu swyddi presennol | £70,605 |

| | |
|---|---|
| **Lleihau adnoddau gan fod y galw a'r gofyn bellach wedi newid**.<br>Mae'r galw ar rai gwasanaethau wedi newid dros y blynyddoedd - lleihau cyllidebau i gyd-fynd â'r galw. | £240,121 |
| **Lleihau capasiti**<br>Bydd hyn yn golygu oediad mewn derbyn gwasanaeth neu lleihad ym mherfformiad y gwasanaeth. | £912,178 |
| **Adolygu pecynnau gofal**<br>Cynnwys adolygu pecynnau i bobl fyw yn fwy annibynnol, defnydd o dechnoleg, taliadau uniongyrchol | £960,695 |
| **Lleihau cyllidebau**<br>Bydd hyn yn golygu lleihau cyllidebau gwaith a chyflawni llai | £742,340 |
| **Cyfanswm** | **£4,363,202** |

2.13 Mae'r Cynlluniau a restrir yn Atodiad B yn adlewyrchu cynlluniau sydd yn ddarostyngedig i gamau statudol neu benderfyniadau pellach cyn y gellir eu cadarnhau. Felly, ar hyn o bryd, maent yn gynlluniau arfaethedig fydd angen unai mynd drwy brosesau penderfynu penodol i gymeradwyo y bwriad neu gamau statudol pellach cyn y gellir eu cadarnhau.

2.14 Er fod rhai o'r arbedion yma yn gorgyffwrdd gyda swyddogaethau dyletswyddau statudol penodol, nid ydynt yn golygu peidio a chyflawni y dyletswyddau yma.

2.15 Tra bod Penaethiaid wedi cyflwyno'r cynigion gorau oedd yn bosib i'w cyflawni o fewn cyllidebau sydd eisoes wedi eu cywasgu'n sylweddol dros flynyddoedd o lymder, nid yw'n synhwyrol tybio y bydd pob cynllun yn bosib i'w wireddu unwaith y byddwn yn symud ymlaen gyda'r camau gweithredu. Gwyddom hefyd o brofiad y gorffennol y bydd yr arbedion ariannol mewn rhai achosion yn llai na'r hyn y gallwn eu proffwydo ar hyn o bryd.

2.16 Felly, er mwyn cynllunio'n ddarbodus mae angen i ni gynnwys rhagdybiaeth risg rhesymol yn y Cynllun Arbedion hwn ac felly argymhellaf ein bod yn rhoi £0.52M o'r cyfanswm o £5.2M y byddwn angen ei ganfod fel swm i'w ddynodi "dan risg".

***Edrych ymlaen tuag at 2025/26 a 2026/27***

2.17 Mae'r Cyngor bellach wedi wynebu bron i 15 mlynedd o lymder ariannol ac wedi wynebu sawl cylch o doriadau ariannol. Mae ein cyllidebau refeniw heddiw bron i £70M yn llai nag yr oeddent ar gychwyn y cyfnod hwnnw.

2.18 Er hynny rydym yn parhau i geisio gwasgu arbedion a thoriadau oddi ar gyllidebau sydd eisoes yn annigonol i'n galluogi i gwrdd â'r galw sy'n ein hwynebu.

2.19 Mae'r galw hwnnw yn parhau i gynyddu'n flynyddol mewn sawl maes heriol ac mae rhagolygon y ddwy flynedd ariannol yn dilyn y flwyddyn nesa yn hyd yn oed gwaeth na'r hyn yr ydym eisoes wedi ei wynebu.

2.20 O ganlyniad, ni fydd modd i awdurdodau lleol barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un natur ar hyn yr ydym wedi ei gymryd yn ganiataol yn y gorffennol ac ni fydd parhau i gyflwyno cynlluniau toriadau fel rhain yn debygol o'n galluogi i osod cyllideb hyfyw a hafal.

2.21 Yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd bydd y Pennaeth Cyllid yn cyflwyno adroddiad fydd yn manylu ar ein rhagolygon ariannol tymor canolig ac mae'n anorfod y bydd rhaid i'r Cabinet gomisiynu gwaith i sefydlu sut yr ydym am flaenoriaethu pa wasanaethau fydd modd i ni barhau i'w darparu yn y dyfodol oni bai y bydd newid i'r rhagolygon ariannol.

2.22 Byddwn yn cychwyn rhoi camau mewn lle rŵan i allu ymateb i'r comisiwn hwnnw.

***Ystyriaethau pellach***

2.23 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Paratowyd y cynllun o fewn egwyddorion y Ddeddf.

2.24 Bu lleihau ardrawiad ar drigolion Gwynedd a chenedlaethau'r dyfodol yn greiddiol i'r broses o adnabod arbedion a thoriadau. Mae'r broses ynddo'i hun wedi hidlo'r cynigion gan adnabod y rhai â'r ardrawiad lleiaf, ac i warchod yr amcanion llesiant / meysydd blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor.

2.25 Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Y Ddeddf") (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig) wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cyngor dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig ynghyd a dal sylw at ardrawiadau economaidd gymdeithasol.

2.26 Cloriannwyd yr oblygiadau ac ardrawiadau yn unol â'r dyletswydd dan y Deddf wrth ddatblygu a blaenoriaethu y cynigion. Mae Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb wedi ei baratoi yn Atodiad C sydd yn cloriannu ardrawiad yr arbedion a argymhellir. Mae natur yr ardrawiadau a nodir yn negyddol o ran y nodwedd Anabledd ac Oedran ac hynny yn bennaf yn sgil yr effaith posib a gaiff cynlluniau Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn ogystal mae na anfanteision economaidd gymdeithasol drwy gynigion yn ymwneud â chodi incwm drwy ffioedd. Cydnabyddir fod rhai cynlluniau yn golygu camau gweithredu pellach fydd yn destun unai asesiadau penodol ynglŷn a'r modd gweithredu. Mae'n fwriad fod yr agweddau yma yn cael eu

cadw dan adolygiad cyson wrth symud i wireddu'r cynlluniau penodol a byddwn yn sicrhau bod yr adrannau yn lliniaru unrhyw effaith negyddol wrth weithredu.

**3. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Mae'r rhaglen yma o arbedion a thoriadau arfaethedig wedi bod yn destun proses gloriannu manwl fel y nodir. Fodd bynnag mae rhaid cydnabod fod ystod o gynlluniau yma sydd yn cynrychioli toriadau mewn gwasanaeth fydd yn cael amryw ardrawiadau. Bydd gwaith pellach wrth symud ymlaen yn ynghlwm a sawl elfen o'r rhaglen ac fe nodir hyn yn yr adroddiad. Mae hyn yn briodol ac yn adlewyrchu amrywiaeth y cynlluniau. Mae hefyd yn briodol nodi fod y Cabinet yn cael sicrwydd yn yr adroddiad ynglŷn a chyflawni dyletswyddau statudol . Mae'r dirprwyo a gynigir hefyd yn briodol. Paratowyd asesiad effaith Cydraddoldeb ac Iaith fel rhan o'r broses ac mae angen i'r Cabinet ei ystyried ei ganlyniadau wrth ddod i benderfyniad. Mae penderfynu ar y rhaglen arbedion yma yn caniatáu i'r Cabinet argymell y Gyllideb hafal i'r Cyngor Llawn. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr adroddiad.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio'n agos gydag awdur yr adroddiad, a gallaf gadarnhau gywirdeb y ffigyrau sydd wedi ei gynnwys ynddo. Mae gwireddu arbedion o'r gwerthoedd a nodir yn hanfodol er mwyn ein galluogi i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25.

---

**Atodiadau**

**Atodiad A**: Rhestr A - Arbedion a Thoriadau

**Atodiad B:** Rhestr B – Arbedion a Thoriadau

**Atodiad C:** Asesiad Cydraddoldeb

**Atodiad A – Rhestr A**

**Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Addysg**

| **Swm £** | **Pennawd Cyllideb a Chynigion** |
|---|---|
| £24,740 | Trosglwyddo Canolfan Ieuenctid Maesgeirchen i Hwb Cymunedol Maes NI |
| £24,700 | Ail-strwythuro Uned Data Addysg |
| £125,000 | Addasu’r gyllideb all-sirol i gyd-fynd â’r gwir wariant |
| £45,800 | Peidio darparu pecynnau adnoddau thematig |
| £18,000 | Addasu trefniadau hybiau Ymddygiad Cyfnod Allweddol 4 |
| £24,000 | Lleihau cyllideb hyfforddiant fewnol y Gwasanaeth Ieuenctid |
| £50,720 | Adolygu strwythur rheolaethol y Gwasanaeth Ieuenctid gan warchod yr adnodd rheng flaen |
| £18,000 | Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion – adolygu lefel y ddarpariaeth Lori Ni |
| £67,676 | Lleihau’r adnodd staffio yn yr uned ADP |
| £23,000 | Lleihau’r adnodd staffio yn y tîm Cymhwysiad |
| £70,000 | Lleihau cyfraniad Gwynedd i GWE |
| **£491,636** | **CYFANSWM** |

**Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Amgylchedd**

| Swm<br>£ | Pennawd Cyllideb a Chynigion |
|---|---|
| £360,000 | Cynyddu’r incwm o gasglu Gwastraff Masnachol o lety gwyliau |
| £15,000 | Gwasanaeth Cefn Gwlad (Hawliau Tramwy a Mynediad) - Peidio derbyn cynnydd chwyddiant ar gyllidebau. |
| £10,280 | Traffig a Phrosiectau - Dim Chwyddiant ar gyllideb cyflawni gwelliannau i ddarnau o'r briffordd |
| £9,000 | Safonau Masnach – Lleihau'r gyllideb i dystiolaethu tor gyfraith troseddol a gwaith rhagweithiol arbenigol |
| £29,636 | Lleihau strwythur tîm cefnogol Gwarchod y Cyhoedd o 1 swydd |
| £33,410 | Diddymu swydd 1 x Cymhorthydd Cefnogol a Thechnegol sy’n cefnogi unedau traffig a phrosiectau a parcio a gwaith stryd |
| £100,000 | Adolygu’r lefel adnodd staff a / neu ailstrwythuro’r gwasanaethau o fewn Gwarchod y Cyhoedd |
| **£557,326** | **CYFANSWM** |

**Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

| Swm<br>£ | Pennawd Cyllideb a Chynigion |
|---|---|
| £9,760 | Cynyddu’r ffi am waith cyfieithu |
| £17,160 | Caffael – Peidio defnyddio system archebu ar lein i archebu nwyddau swyddfa. |
| £19,190 | Cyfathrebu ac Ymgysylltu - Rhoi'r gorau i gyhoeddi papur Newyddion Gwynedd |
| £43,500 | Ail-strwythuro gwasanaeth ymgynghorol adnoddau dynol |
| £61,813 | Ailstrwythuro a lleihau’r adnoddau staffio Uned Rheoli |
| £26,320 | Dysgu a Datblygu'r Sefydliad - Diddymu un swydd o fewn y strwythur |
| £50,860 | Caffael - Dileu swydd yn y Gwasanaeth Caffael oddi ar y strwythur |
| £21,370 | Cynllunio Argyfwng - Tynnu allan o'r gytundeb Cynllunio Argyfwng rhanbarthol a darparu’r gwasanaeth yn fewnol |
| £41,610 | Dysgu a Datblygu'r Sefydliad – Torri cyllidebau cyflenwadau |
| £50,000 | Cyswllt Cwsmer - cwtogi oriau agor Siop Gwynedd yn y dair brif swyddfa |
| £30,000 | Lleihau'r adnodd yn Uned Cefnogi Busnes y Cyngor |
| £40,617 | Ail-strwythuro’r Gwasanaeth o fewn y flwyddyn 2024/25 a lleihau’r adnodd staffio yn sgil hynny |
| £33,300 | Cyfathrebu ac Ymgysylltu - Diddymu swydd Swyddog Cyfathrebu |
| **£445,500** | **CYFANSWM** |

**Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Cyllid**

| Swm<br>£ | Pennawd Cyllideb a Chynigion |
|---|---|
| £85,000 | Rhesymoli cytundeb / niferoedd ffonau symudol |
| £30,000 | Lleihau defnydd trydan yng nghanolfan ddata TG y Cyngor |
| £30,000 | Arbedion trydan drwy ddiffodd cyfarpar oddi allan i oriau craidd |
| £15,000 | Trethi - Lleihau cyllideb goramser |
| £24,200 | Uned Rheoli - Diddymu swydd Swyddog Cefnogol Gweithredol / Cyfrifydd Cynorthwyol |
| £70,000 | TG - Lleihau oriau agor y Ddesg Gymorth TG |
| £31,530 | Cyflogau - Torri swydd Technegydd Cyflogau |
| £29,360 | Taliadau - dileu swydd |
| £12,590 | Budd-dal – Lleihau oriau swydd asesu budd-dal |
| £37,840 | Cyfrifeg – Adolygu adnodd staff cyfrifeg |
| £45,340 | Archwilio Mewnol – ailstrwythuro |
| £45,000 | Incwm – Ailstrwythuro |
| **£455,860** | **CYFANSWM** |

**Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Economi a Chymuned**

| Swm<br>£ | Pennawd Cyllideb a Chynigion |
|---|---|
| £25,000 | Uwchraddio goleuadau Canolfan Tenis Arfon i greu arbediad ar gostau ynni |
| £51,088 | Llyfrgelloedd - arbedion effeithlonrwydd wrth addasu trefniadau gweithio |
| £10,143 | Rhaglenni Datblygu Economaidd - Ildio cyllideb yn weddill o drosglwyddo swydd i Adran arall |
| £1,000 | Marchnata a Digwyddiadau – Peidio ag ymaelodi gyda dwy gymdeithas dwristiaeth |
| £3,250 | Marchnata a Digwyddiadau - Torri tâl aelodaeth consortia |
| £20,000 | Morwrol – Lleihau cyfran o’r gwariant ar lanhau traethau |
| £14,136 | Archifau – adolygu'r adnodd staffio |
| £30,000 | Llyfrgelloedd – Lleihau'r gwariant ar y gronfa lyfrau i gyd-fynd gyda’r nifer o fenthyciadau |
| £39,793 | Marchnata a Digwyddiadau – cwtogi adnodd Marchnata a Digwyddiadau |
| £20,728 | Adfywio - Arbediad 40% o swyddog Gweithredol |
| £5,000 | Lleihau cyllidebau gweithgareddau celf cymunedol |
| £5,000 | Lleihau gweithgareddau hwyl haf plant |
| £3,090 | Lleihau gweithgareddau sialens darllen haf plant |
| £7,120 | Torri cyllideb datblygu testun gwefan Eryri |
| **£235,348** | **CYFANSWM** |

**Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

| Swm<br>£ | Pennawd Cyllideb a Chynigion |
|---|---|
| £79,469 | Torri 2.5 FTE swydd gweinyddol ar draws y Gwasanaethau |
| £150,000 | Cartrefi Preswyl a Nyrsio: Helpu 20 o unigolyn  barhau i fyw yn y gymuned (yn hytrach na chartref gofal preswyl) |
| £21,303 | Peidio llenwi swydd wag Gweithiwr Cefnogol |
| £33,000 | Gwasanaeth Teleofal – Adolygu pecynnau gofal penodol a rhoi mewnbwn arbenigol technoleg/teleofal mewn er mwyn lleihau'r angen am ofal/cefnogaeth traddodiadol |
| £30,900 | Rheolaeth a Gweinyddiaeth Gwasanaeth Darparu: Torri un swydd weinyddol drwy ail strwythuro |
| £193,089 | Anableddau Dysgu:<br>a) Trosglwyddo 10 pecyn Gwas Cefnogol i Taliadau Uniongyrchol dros amser<br>b) Edrych ar gefnogaeth 1:1 gyda'r bwriad o arbed 10% drwy gynyddu cyfleoedd grŵp/gwaith<br>c) Lleihau teithio Gwas. Cefnogol 25% |
| £50,000 | Edrych ar drefniadau ar gyfer paratoi yr ail ddewis prydau bwyd mewn cartrefi gofal |
| £12,000 | Torri 0.2FTE oddi ar swydd Arweinydd Tim Llesiant sy'n gyfrifol am faterion Gofalwyr |
| £157,060 | a) Ail asesu 5 achos Llety Cefnogol sydd yn derbyn oriau 1:1 neu 2:1 (Arbediad 20% ar 5 achos)   b) Sefydlu tenantiaethau mewn un llety cefnogol |
| £377,546 | Arbedion o 10% ar gontractau preifat a gwasanaethau dydd oedolion ag anableddau dysgu drwy adolygu pecynnau 1:1 a 2:1 |
| £22,200 | Uned Incwm a Lles: Torri hanner swydd (0.5 FTE) |
| £15,630 | Uned Prosesu Cyllid Oedolion a Plant: Torri hanner swydd (0.5 FTE) |
| £20,940 | Lleihau oriau Swyddog Llesiant |
| **£1,163,137** | **CYFANSWM** |

**Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC**

| Swm<br>£ | Pennawd Cyllideb a Chynigion |
|---|---|
| £65,000 | Adolygiad Gwasanaeth Busnes Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC |
| £60,000 | Addasu amseru ein gwaith graeanu ffyrdd a'i gyflawni o fewn oriau gwaith, lle’n bosib |
| £25,000 | Mireinio y cynllun pylu goleuadau stryd |
| £25,000 | Cynyddu ffi amlosgi |
| £35,000 | Cynyddu ffi mynwentydd |
| £46,000 | Adolygu trefniadau torri gwledig ucheldir/amlder/fertigol a'r amser rhwng y tymor tyfu |
| £20,000 | Peidio cyflogi gweithlu tymhorol cynnal tir |
| £250,000 | Ailstrwythuro’r Gwasanaeth Priffyrdd |
| £40,000 | Newidiadau yn dilyn cyflwyniad Gwasanaeth Edrychiad Stryd |
| £71,000 | Lleihau rhaglen waith cynnal strwythurau |
| £185,000 | Lleihau rhaglen arwisgo y gwasanaeth cynnal priffyrdd |
| £60,000 | Lleihad rhaglen ail wynebu llwybrau cerdded |
| **£882,000** | **CYFANSWM** |

**Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Tai ac Eiddo**

| Swm<br>£ | Pennawd Cyllideb a Chynigion |
|---|---|
| £18,390 | Diddymu swydd wag cefnogaeth teithwyr |
| £43,400 | Torri swydd Swyddog Gorfodaeth |
| £70,605 | Uned Stadau - ariannu gwaith ar y Cynllun Gweithredu Tai gan yr Uwch Syrfëwr Stadau, a hanner swydd Syrfëwr Stadau Cynorthwyol o'r premiwm treth cyngor |
| **£132,395** | **CYFANSWM** |

**Atodiad B – Rhestr B**

**Cynlluniau lle bydd angen camau ac ystyriaeth bellach cyn dod i benderfyniad terfynol**

**Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Amgylchedd**

| Swm<br>£ | Pennawd Cyllideb a Chynigion |
|---|---|
| £78,000 | Parcio a Gwaith Stryd - Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor. |
| £160,000 | Parcio a Gwaith Stryd - Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2 |
| £146,910 | Gwasanaethau Gwastraff – trefniadau casglu clytiau untro |
| £20,000 | Gwasanaeth Gwastraff - trefniadau casgliadau gwastraff gardd |
| £200,000 | Gwasanaeth Gwastraff- amlder casgliadau gwastraff gweddilliol |
| **£604,910** | **CYFANSWM** |

**Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Economi a Chymuned**

| Swm<br>£ | Pennawd Cyllideb a Chynigion |
|---|---|
| £35,000 | Parciau Gwledig - Incwm o faes Parcio y Glyn, Llanberis |
| £17,000 | Lleihau cyllideb grantiau strategol celfyddydol |
| **£52,000** | **CYFANSWM** |

**Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

| Swm<br>£ | Pennawd Cyllideb a Chynigion |
|---|---|
| £100,000 | Anableddau Dysgu: Codi ffi bychan fel cyfraniad tuag at gost gwasanaethau dydd anableddau dysgu |
| £49,040 | Parhau i ariannu'r trydydd sector ar yr un lefel a 2023/24 |
| **£149,040** | **CYFANSWM** |

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Arbedion a thoriadau 2024/2025

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Arbedion a thoriadau i gwrdd â'r bwlch ariannol y mae'r Cyngor yn ei wynebu yng nghyllideb 2024/2025.

**1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Dafydd Gibbard |

**1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

| |
|---|
| Bu asesiad anffurfiol gan yr adrannau ym mis Medi 2023. Cychwynnwyd yr asesiad ffurfiol yma ar 17 Ionawr 2024. |

## 2) Gweithredu

**2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Adrannau'r Cyngor<br>Pobl Gwynedd<br>Y Cabinet<br>Aelodau etholedig mewn gweithdai arbedion |

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

| |
|---|
| Nid oes ymgysylltu penodol wedi digwydd hyd yma ond mae proses ymgysylltu corfforaethol wedi golygu bod yr Aelodau Etholedig wedi cael cyfle i roi mewnbwn ar sail eu ymwybyddiaeth o'u hardaloedd a'r hyn mae eu hetholwyr yn godi gyda hwy.<br><br>Bydd angen i Adrannau benderfynu pa lefel o ymgysylltu fydd angen i wneud eu hasesiadau effaith unigol a bydd hynny yn bwydo i mewn i'r modd y gweithredir. |

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu a'i gydgynllunio i gynnwys barn yr aelodau. |

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Rydym bellach yn gwybod beth fydd lefel ein Grant Cefnogaeth Refeniw(CGR) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 (cynnydd o 2%), ac y bydd yn sylweddol is na lefel chwyddiant a chryn bellter islaw'r hyn fyddwn ei angen i gynnal ein lefel gwasanaethau presennol. Mae'r ffaith fod poblogaeth Gwynedd wedi gostwng erbyn y cyfrifiad yn 2021 yn golygu fod y lefel cynnydd GCR fyddwn yn ei dderbyn yma yng Ngwynedd yn cynrychioli'r cynnydd isaf drwy Gymru.

Rydym hefyd yn wynebu sefyllfa lle bo adrannau yn gorwario, yn bennaf oherwydd cynnydd parhaus yn y galw am eu gwasanaethau a'i bod yn amhosib erbyn hyn i rhai gwasanaethau megis digartrefedd, gofal plant, gofal oedolion a chludiant ysgolion allu gweithredu o fewn eu cyllideb presennol. Mae yn arwain at orwariant eleni oddeutu £8M. Gan nad oedd cyfle i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y bwlch hwn, byddwn yn gorfod defnyddio arian wrth gefn ar gyfer ymdopi â'r sefyllfa.

Canlyniad y cynnydd mewn galw, yr angen i ddarparu cyllideb uwch ar gyfer yr adrannau sydd bellach methu ymdopi â'u cyllideb presennol, a'r Grant Cynnal Refeniw isel gan y Llywodraeth, yw fod y Cyngor yn wynebu bwlch ariannol eleni o £14.9M.

Pan yn cyflwyno'u cynigion, roedd yr Adrannau yn cynnwys asesiad o effaith pob cynnig ar drigolion Gwynedd ynghyd ag ystyriaeth gychwynnol i ystyriaethau cydraddoldeb. Dros gyfnod o dri diwrnod bu i'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr gyflwyno'r cynigion i weithdai o Aelodau etholedig y Cyngor.

Mae 'na gynigion yn ymwneud â chodi incwm trwy ffioedd. Oherwydd yr effaith gronnus a'r ffaith fod taliadau cynyddol fel hyn yn anorfod yn cael mwy o effaith ar bobl sy'n byw gyda anfantais economaidd-gymdeithasol nag eraill mae hyn am gael mwy o effaith ar rai pobl.

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae'n bosib, oherwydd diffyg gwybodaeth digonol, bod yna effaith ar nodweddion penodol ac mae'n bwysig edrych arnynt yn unigol i adnabod os oes angen gwneud asesiad llawn. Wrth gwrs mae'n bosib fod asesiad effaith wedi eu gwneud ar nifer o'r rhain yn barod.

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Niwtral | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Anabledd** | negyddol | Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi adnabod y posibilrwydd o effaith ar y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Bydd yr adran honno yn sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effaith drwy asesu anghenion unigolion. Mae cynigion eraill hefyd wedi eu adnabod fel rhai fydd yn cael effaith ar bobl anabl a bydd disgwyl i asesiadau effaith gael eu gwneud ar y cynigion unigol er mwyn adnabod a lliniaru'r effaith lawn. Mae'n bwysig adnabod hefyd y bydd effaith gronnus ar bobl anabl gan mai nhw yw'r garfan sydd am eu heffeithio fwyaf. |
| **Rhyw** | Niwtral | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Oedran** | negyddol | Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi adnabod y posibilrwydd o effaith ar y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Bydd yr adran honno yn sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effaith drwy asesu anghenion unigolion. Mae cynigion eraill hefyd wedi eu adnabod fel rhai fydd yn cael effaith ar oedran a bydd disgwyl i asesiadau effaith gael eu gwneud ar y cynigion unigol er mwyn adnabod a lliniaru'r effaith lawn. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Niwtral | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Niwtral | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Ailbennu rhywedd** | Niwtral | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Niwtral | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Niwtral | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Niwtral | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | negyddol | Mae 'na gynigion yn ymwneud â chodi incwm trwy ffioedd. Oherwydd yr effaith gronnus a'r ffaith fod taliadau cynyddol fel hyn yn anorfod yn cael mwy o effaith ar bobl sy'n byw |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyda anfantais economaidd-gymdeithasol nag eraill mae hyn am gael mwy o effaith ar rai pobl.<br>Byddwn yn sicrhau bod yr adrannau perthnasol yn lliniaru unrhyw effaith negyddol wrth weithredu.<br>Mae posib bod rhai o'r arbedion yn mynd i ddylanwadu ar ansawdd rhai o weithgareddau'r Cyngor ond hefyd mae'r ardrawiad yna yn ymylol yng nghyd-destun beth sy'n digwydd yn allanol e.e. hyrwyddo'r maes twristiaeth. |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Ni chredir fod yr effaith a soniwyd amdano yn 3.1 yn ddigonol i arwain at gamwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Posib | Gan fod effaith wedi ei adnabod, bydd yn rhaid gweithredu yn ofalus i sicrhau nad yw'r newidiadau'n effeithio'r dyletswydd yma. |
| **Meithrin perthnasau da** | Posib | Gan fod effaith wedi ei adnabod, bydd yn rhaid gweithredu yn ofalus i sicrhau nad yw'r newidiadau'n effeithio'r dyletswydd yma. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Mae'r Asesiad Effaith Integredig yma yn edrych ar y Cynllun Arbedion yn ei gyfanrwydd. Mae'n debygol y bydd yr un gwasanaethau ar gael yng Nghymraeg a Saesneg yn dilyn yr arbedion felly ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag mae'n debyg y bydd |

lleihad mewn adnoddau yn effeithio yn gyffredinol ar y gallu i gynyddu cyfleoedd presennol i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned.

Mae disgwyl i bob cynllun unigol gael Asesiad ar wahân ar y cynllun yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono. Bydd angen i'r asesiadau hyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i hybu'r iaith Gymraeg yn eu meysydd. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynllun unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

d/b

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae nifer o grwpiau nodwedd hefyd yn fwy tueddol o fyw mewn tlodi. Ond hefyd maent yn mynd i gael eu heffeithio gan fathau eraill o dlodi, sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau, tlodi digidol ayb.

Mae 'na gynigion yn ymwneud â chodi incwm trwy ffioedd. Oherwydd yr effaith gronnus a'r ffaith fod taliadau cynyddol fel hyn yn anorfod yn cael mwy o effaith ar bobl sy'n byw gyda anfantais economaidd-gymdeithasol nag eraill mae hyn am gael mwy o effaith ar rai pobl.

Mae yna un neu ddau o gynigion sydd wedi eu hadnabod am reswm arall. Maent yn ymwneud â lleihau'r cefnogaeth i gwmnïau twristaidd. Mae nifer o bobl sy'n gweithio yn y sector yna ar gyflogau isel, ond mae'n bosib iddynt golli'r incwm hwnnw os nad yw'r sector yn ffynnu.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Bydd hyn yn cael mwy o sylw yn yr asesiadau unigol

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Mae ardrawiad amrywiol ar y rhain a bydd monitro cyson arnynt wrth eu gweithredu, ond mae'n rhaid derbyn mai cynlluniau arbedion ydynt mewn ymateb i sefyllfa cynni ariannol yn Genedlaethol. |

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Achosi effeithiau cydraddoldeb cronnus

Yn yr asesiad cychwynnol defnyddiwyd y term yma i nodi cynigion sy'n ymwneud â chreu incwm drwy godi ffioedd ychwanegol ar y cyhoedd (yn hytrach nag ar fudiadau eraill). Yn aml tybir na fydd codi ffi o'r math yma yn achosi effaith camwahaniaethol oherwydd eu bod yn effeithio pawb sydd angen y gwasanaeth yr un peth. Ond nid yw hynny'n wir, maent yn sicr yn effeithio pobl sy'n byw mewn tlodi yn fwy na phobl eraill. Mae ystadegau'n dangos fod rhai grwpiau o nodweddion cydraddoldeb yn dod i'r categori yma. Mae teuluoedd sy'n cynnwys person anabl yn ystadegol fwy tebygol o fod yn dlotach na theuluoedd eraill, felly hefyd teuluoedd un rhiaint (sydd fel arfer â menyw fel penteulu). Mae 29% o blant yn byw mewn tlodi. Mae rhai pobl o grwpiau lleiafrifol ethnig yn dueddol o fod yn dlotach, a rhai pobl hŷn, ac yn gynyddol felly. Rhaid hefyd cofio fod effaith hyn ond yn gwaethygu oherwydd sefyllfa economaidd y wlad yn gyffredinol.

Ond hefyd dylid edrych ar y darlun yn gyffredinol er mwyn gweld os oes unrhyw effaith cronnus arall yn cael ei achosi. Mae'n amlwg o'r asesiad cychwynnol yma fod rhai carfannau'n cael eu heffeithio'n fwy gan y cynigion yma – pobl hŷn a pobl gydag anableddau yn fwyaf penodol. Bydd felly effaith cronnus amlwg arnynt hwy.

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | X |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Bydd yr adrannau yn gweithio i sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| d/b |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Bydd yr arbedion yn cael eu herio yn y cyfarfod monitro perfformiad 4 gwaith y flwyddyn. Hefyd, bydd adroddiad Trosolwg Arbedion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet 3 gwaith y flwyddyn. |